COVID-19 Update: 26th June

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council, covering: kerbside garden waste collections return to normal on 6th July; Wellfield Road will be closed to traffic on Sunday for improvement works; and the Blues to return to training at Pentwyn Leisure Centre.

Kerbside garden waste collections return to normal on July 6

Fortnightly, kerbside collections of Cardiff's green, garden waste are to return from Monday, July 6.

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Environment and Recycling, said: "Our fortnightly garden waste collections were disrupted by the COVID-19 pandemic, but I'm pleased to say normal service will now resume. I want to thank residents for their patience. They've been really understanding of the pressures we've been under."

Residents can check green waste collection days and dates for their area from July 6 here, collections should follow the pattern residents were used to before lockdown began.

The return of the fortnightly garden waste collection means that all normal kerbside collections are back in place across the city except for the glass bottle and jar pilot.

Residents living in the 14,000 homes which took part in the glass pilot are asked to continue to put their bottles and jars into their green recycling bags, rather than their blue caddy, until further notice.

To help council staff keep the streets clean residents are also being asked to use their brown food caddies for all vegetable peelings and leftover food waste, and to make sure all their recyclables are washed out before they go into their green bags for collection.

The only waste that should be put into the green wheelie-bin are leaves, grass cuttings, plant or flower cuttings or small twigs or branches.

Cllr Michael added: "There have been reports of green bags being ripped open by hungry gulls, causing rubbish to spill out onto the streets across the city. If recyclables are washed and food waste goes into the lockable caddies then it will go some way to stopping birds and animals ripping open the green bags and making a mess on your street. Lots of residents are fantastic at making sure their waste is presented the right way, but it doesn't take much for a street to be ruined. If everyone could do their best to make sure there is no food waste in their green bags and recyclables are washed it will make a huge difference to how your streets look."

Wellfield Road will be closed to traffic on Sunday for improvement works

Wellfield Road will be closed to traffic on Sunday June 28 between 6am and 4pm, as work will be underway to re-model the road to ensure shops can trade safely and social distancing measures can be followed by the public.

The traffic cones that are currently in place on either side of the road will be replaced with birch trees and additional barriers will be put in place to widen the pavements, so that there is more open space for pedestrians to use.

The pilot scheme has been put in place to allow the shopkeepers to trade safely, while giving confidence to residents that it safe to shop in local shopping areas. As the parking has been suspended on either side of the road, arrangements are being made for customers to park on nearby streets.

This is the first of 15 schemes that the Council is currently looking at in neighbourhood shopping areas, to help these businesses trade while the current COVID-19 restrictions are in place.

The Council has been working with local businesses on Wellfield Road as this scheme has developed and this engagement will continue, so we can all work together to improve the street which will benefit not only the traders but all those that live and visit the area.

Blues to return to training at Pentwyn Leisure Centre

Cardiff Blues will return to training at Pentwyn Leisure Centre after a temporary agreement was reached with Cardiff Council and GLL, the charitable leisure social enterprise that operates the facility.

With the iconic Arms Park currently utilised as part of the Dragon's Heart Hospital, a temporary facility was required for the region's return to rugby next month.

An agreement has now been finalised between the region, Cardiff Council and GLL, for the short-term use of the leisure centre situated on Bryn Celyn Road. This follows the agreed Government and WRU advice for professional rugby clubs' return to training, implementing COVID-safe protocols.

Cardiff Blues will now have exclusive use of a number of facilities at Pentwyn Leisure Centre, including a bespoke gymnasium, medical facilities and a 3G surface. John Mulvihill's men will also continue to utilise an exclusive grass pitch at Sophia Gardens.

Cardiff Blues Chief Executive Richard Holland said: "We are thrilled to have such a facility in place to support the squad's phased return to playing and I would like to thank Cardiff Council, particularly Council Leader Huw Thomas, Chief Executive Paul Orders and Cabinet Member for Culture and Leisure Cllr Peter Bradbury, and GLL for their support in this."

Cllr Peter Bradbury, Cardiff Council Cabinet Member for Culture and Leisure, said: "Working in partnership has been at the heart of Cardiff's response to COVID-19 –

the Blues handing over the Arms Park for the benefit of the NHS is a prime example of that. This temporary move to Pentwyn Leisure Centre, is a really creative solution that reciprocates that community spirit, benefits all partners, and will help make sure the squad are fit and ready for a winning return to action in August."

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24182.html

Diweddariad COVID-19: 26 Mehefin
Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: casgliadau gwastraff gardd wrth ymyl y ffordd i ddychwelyd i'r patrwm arferol ar 6 Gorffennaf; bydd Heol Wellfield ar gau i draffig Ddydd Sul ar gyfer gwaith gwella; ac y Gleision yn dychwelyd i hyfforddi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn.

Casgliadau gwastraff gardd wrth ymyl y ffordd i ddychwelyd i'r patrwm arferol ar 6 Gorffennaf

Mae casgliadau gwastraff gardd o ymyl y ffordd Caerdydd yn mynd i ddychwelyd bob pythefnos o ddydd Llun 6 Gorffennaf.

Dwedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, yr Amgylchedd ac Ailgylchu: "Amharwyd ar ein casgliadau gwastraff gardd bob pythefnos gan bandemig COVID-19, ond rwy'n falch o ddweud y bydd y gwasanaeth arferol yn ailddechrau. Hoffwn ddiolch i'r trigolion am eu hamynedd. Maen nhw wedi deall y pwysau sydd wedi bod arnom ni'n iawn."

Gall preswylwyr wirio diwrnodau casglu gwastraff gwyrdd a dyddiadau ar gyfer eu hardal o 6 Gorffennaf Yma, dylai casgliadau ddilyn y patrwm yr oedd preswylwyr yn gyfarwydd ag ef cyn y cyfyngiadau.

Mae'r ffaith fod y casgliad gwastraff gardd bob pythefnos wedi'i adfer yn golygu bod pob casgliad arferol o ymyl y ffordd bellach yn ôl yn y ddinas ac eithrio'r cynllun peilot poteli gwydr a jariau.

Gofynnir i drigolion sy'n byw yn y 14,000 o gartrefi a gymerodd ran yn y cynllun peilot gwydr barhau i roi eu poteli a'u jariau yn eu bagiau ailgylchu gwyrdd, yn hytrach na'u cadi glas hyd nes y ceir hysbysiad pellach.

Er mwyn helpu staff y Cyngor i gadw'r strydoedd yn lân, gofynnir i drigolion hefyd ddefnyddio eu cadis bwyd brown ar gyfer eu holl bilion llysiau a gwastraff bwyd dros ben, a sicrhau bod eu holl ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu golchi cyn iddynt fynd i'r bagiau gwyrdd i'w casglu.

Yr unig wastraff y dylid ei roi yn y biniau gwyrdd yw dail, gwair wedi ei dorri, toriadau planhigion neu flodau a brigau a changhennau bychain.

Ychwanegodd y Cynghorydd Michael: "Cafwyd adroddiadau bod bagiau gwyrdd yn cael eu rhwygo ar agor gan wylanod llwglyd, gan achosi i sbwriel lifo allan i'r

strydoedd ar draws y ddinas. Os golchir deunyddiau i'w hailgylchu a bod gwastraff bwyd yn mynd i'r cadis y gellir eu cloi yna bydd hynny'n mynd beth o'r ffordd i atal adar ac anifeiliaid rhag rhwygo bagiau gwyrdd ar agor a chreu llanast ar eich stryd. Mae llawer o breswylwyr yn wych am sicrhau bod eu gwastraff yn cael ei gyflwyno yn y ffordd gywir, ond nid yw'n cymryd llawer i'r stryd gael ei difetha. Pe gallai pawb wneud eu gorau i sicrhau nad oes unrhyw wastraff bwyd yn eu bagiau gwyrdd a bod deunydd ailgylchadwy yn cael ei olchi, bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i olwg eich strydoedd."

Bydd Heol Wellfield ar gau i draffig Ddydd Sul ar gyfer gwaith gwella

Ddydd Sul 28 Mehefin bydd Heol Wellfield ar gau i draffig rhwng 61m a 4pm am fod gwaith ar y gweill i ailfodelu'r ffordd er mwyn sicrhau y gall siopau fasnachu yn ddiogel ac y gall y cyhoedd ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Yn lle'r conau traffig sydd ar waith ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd, rhoddir coed bedw yn eu lle a bydd rhwystrau ychwanegol yn cael eu gosod i ledu'r palmentydd, fel bod mwy o le agored i gerddwyr ei ddefnyddio.

Mae'r cynllun peilot wedi cael ei roi ar waith i alluogi'r siopwyr i fasnachu'n ddiogel, tra'n rhoi hyder i drigolion ei fod yn ddiogel siopa mewn ardaloedd siopa lleol. Gan fod y parcio wedi'i atal ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd, mae trefniadau'n cael eu gwneud i gwsmeriaid barcio ar strydoedd cyfagos.

Dyma'r cyntaf o 15 cynllun y mae'r Cyngor yn edrych arnynt ar hyn o bryd mewn ardaloedd siopa cymdogaeth, i helpu'r busnesau hyn fasnachu tra bod y cyfyngiadau COVID-19 presennol ar waith.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda busnesau lleol ar Heol Wellfield wrth i'r cynllun hwn ddatblygu a bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau, fel y gallwn oll gydweithio i wella'r stryd a fydd o fudd nid yn unig i'r masnachwyr ond i bawb sy'n byw ac yn ymweld â'r ardal.

Y Gleision yn dychwelyd i hyfforddi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn

Bydd Gleision Caerdydd yn dychwelyd i hyfforddi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn ar ôl dod i gytundeb dros dro gyda Chyngor Caerdydd a GLL, y fenter gymdeithasol hamdden elusennol sy'n gweithredu'r cyfleuster.

Gyda Pharc yr Arfau eiconig yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel rhan o Ysbyty Calon y Ddraig, roedd angen cyfleuster dros dro ar gyfer dychweliad tîm y rhanbarth i rygbi'r mis nesaf.

Mae cytundeb bellach wedi'i gwblhau rhwng y rhanbarth, Cyngor Caerdydd a GLL, ar gyfer defnyddio'r ganolfan hamdden ar Heol Bryn Celyn dros dro. Mae hyn yn dilyn cyngor y cytunwyd arno gan y Llywodraeth ac URC i glybiau rygbi proffesiynol ddychwelyd i hyfforddiant, gan weithredu protocolau diogel rhag COVID.

Bellach, bydd Gleision Caerdydd yn unig yn defnyddio nifer o gyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn, gan gynnwys campfa bwrpasol, cyfleusterau meddygol ac arwyneb 3G. Bydd dynion John Mulvihill hefyd yn parhau i ddefnyddio llain laswellt unigryw ar eu cyfer yng Ngerddi Sophia.

Meddai Richard Holland, Prif Weithredwr Gleision Caerdydd: "Rydym wrth ein boddau bod gennym gyfleuster o'r fath i helpu'r garfan i ddychwelyd i chwarae yn raddol a hoffwn ddiolch i Gyngor Caerdydd, yn enwedig i arweinydd y Cyngor Huw Thomas, y Prif Weithredwr Paul Orders a'r Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Peter Bradbury, a GLL am eu cefnogaeth yn hyn o beth."

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros Hamdden a Diwylliant, y Cyng. Peter Bradbury: "Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod wrth galon ymateb Caerdydd i COVID-19 – roedd y Gleision yn trosglwyddo Parc yr Arfau er budd y GIG yn enghraifft wych o hynny. Mae'r symud dros dro hwn i Ganolfan Hamdden Pentwyn, yn ateb creadigol iawn, sy'n cyd-fynd â'r ysbryd cymunedol hwnnw, o fudd i bob partner, a bydd yn helpu i sicrhau bod y garfan yn ffit ac yn barod i ailgydio ynddi ym mis Awst."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24183.html